



Templed

Pecyn Cymorth Rheoli Safle Rhandiroedd: Templed Cytundeb Tenantiaeth Rhandir a Chymalau

Rhagarweiniad

Mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynhyrchu pecyn o adnoddau i helpu sicrhau fod awdurdodau lleol ac eraill sy'n gysylltiedig â rheoli safleoedd rhandiroedd yng Nghymru yn manteisio i'r eithaf ar botensial y safleoedd ar gyfer y boblogaeth leol.

Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, mae FfaGC Cymru wedi llunio dogfen cyfarwyddyd ar gyfer awdurdodau lleol, tyfwyr a grwpiau tyfu yng Nghymru sy'n cynnwys trosolwg o ran rheoli safleoedd rhandiroedd.

Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnwys cyfres o daflenni ffeithiau sy'n ehangu ar bynciau amrywiol sy'n cael sylw yn y Canllawiau ac mae hefyd yn cynnwys detholiad o dempledi sampl tenantiaeth a dogfennau cyfreithiol eraill i gynorthwyo gyda rheoli safle.

Gellir lawrlwytho'r holl adnoddau hyn o:

www.farmgarden.org.uk/allotment-site-management-toolkit

Sut cynhyrchwyd y daflen gyngor hon?

Lluniwyd y daflen cyngor hon trwy ddefnyddio dogfennau enghreifftiol a gynhyrchwyd gan Ffederasiwn Rhandiroedd Barnet yn 2014. Rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am eu darpariaethau a geirio cynhwysfawr.

Diweddarwyd y daflen cyngor hon yn unol â deddfwriaeth, cyfarwyddyd ac arferion diweddaraf y llywodraeth, gan gynnwys y cytundeb tenantiaeth model a ddefnyddir gan Gyngor Dinas Caerdydd.



Sut i ddefnyddio'r daflen gyngor hon a chytundeb

Mae'r ddogfen hon yn delio gyda'r cytundeb rheolaeth leol, ac fe'i rhennir yn 4 adran:

- Cytundeb tenantiaeth model cryno
- Nodiadau rhagarweiniol ar gytundebau tenantiaeth ar gyfer rhandiroedd
- Telerau ac amodau model ychwanegol opsiynol
- Nodiadau sy'n egluro pob term neu amod.

Dylai pob tenant sy'n dal llain ar randir dderbyn copi o'r cytundeb tenantiaeth ar ôl llofnodi'r ddogfen.

Dylai fod gan ddeiliaid lleiniau fynediad at ddogfennau ychwanegol yn dibynnu ar drefniadau rheoli'r safle dan sylw:

- Os ydy'r safle'n cael ei rheoli gan awdurdod lleol sy'n berchen ar safle'r rhandiroedd, efallai taw cytundeb tenantiaeth uniongyrchol gyda phob deiliaid llain fydd yr unig ddogfen sydd ei hangen.
- Os ydych yn delio gyda Chymdeithas Rhandiroedd, dylai fod gan ddeiliad y llain fynediad at Gyfansoddiad, Rheolau neu Erthyglau Cymdeithasiad y Gymdeithas.
- Os ydy'r safle'n cael ei reoli gan Gymdeithas Rhandiroedd ar ran tîrffediannwr arall, megis awdurdod lleol, dylai fod deiliad y llain yn gallu gweld telerau ac amodau'r denantiaeth gyffredinol sy'n berthnasol i'r safle. Gall hyn fod ar ffurf prydles neu gytundeb rheolaeth leol.

Cytundeb tenantiaeth model cryno ar gyfer deiliaid lleiniau

Mae'r Cytundeb hwn yn cael ei lunio ar y [noder dyddiad*] diwrnod o [noder mis*][noder y flwyddyn*] [*dyddiad llofnodi]

RHWNG [noder enw'r GYMDEITHAS RHANDIROEDD] o [gyfeiriad y gymdeithas neu landlord] ('y Gymdeithas' neu'r 'Landlord')

a [noder enw'r tenant] o [noder cyfeiriad y tenant] ('y Tenant').

1. Drwy'r Cytundeb hwn, mae'r "Amodau" yn cyfeirio at delerau ac amodau'r denantiaeth rhandiroedd a bennir o dro i dro gan y Gymdeithas. Mae copi o'r Amodau cyfredol adeg cychwyn y cytundeb hwn ynghlwm, ac fe'u darllenwyd gan y tenant.
2. Mae'r Gymdeithas neu'r Landlord yn cytuno i osod ac mae'r Tenant yn cytuno i gymryd y rhandir a leolir ar [enw'r safle] ("y Safle") sef Llain Rhif [noder rhif y llain] yng nghofrestr y gerddi rhandir a gynhelir gan y Gymdeithas neu'r Landlord ac sy'n cynnwys [noder maint y llain] polyn neu tua hynny o ddyddiad y cytundeb hwn hyd at ddiwrnod cyntaf [Ebrill nesaf] ac ar ôl hynny o flwyddyn i flwyddyn, nes terfynu'r cytundeb yn unol â'r Amodau am rent blynyddol o £[xyz] [a thrwy rent pellach, tâl flynyddol am ddŵr o £[xyz]].*
3. Mae'n rhaid talu'r rhent a nodir yn 2 uchod [gan gynnwys y tal blynyddol am ddŵr] yn flynyddol ymlaen llaw ar ddiwrnod cyntaf [Ebrill] yn flynyddol, o ddyddiad i'w benderfynu gan y Gymdeithas neu'r Landlord ac felly fel cyfran mewn perthynas ag unrhyw gyfnod o lai na blwyddyn pan fydd y denantiaeth yn bodoli.
4. Efallai y caiff y rhent a nodir yn 2 uchod [gan gynnwys y tal blynyddol am ddŵr] ei gynyddu neu ei ostwng gan y Gymdeithas yn y dyfodol, ar ôl rhoi rhybudd ysgrifenedig o [12] mis i'r tenant o'i bwriad i wneud hynny.
5. Mae'r denantiaeth hon yn amodol ar yr Amodau, ac ar Ddeddfau Rhandiroedd 1908 - 1950.

FEL Y TYSTIR gan lofnod y partion hyn ar gyfer y diwrnod a'r flwyddyn a nodir uchod.

LLOFNOD y Tenant:

Ym mhresenoldeb y tyst:

Llofnod y tyst:

Enw a chyfeiriad y tyst:

.....
.....
.....

LLOFNOD ar ran y Gymdeithas neu Landlord:

.....

Enw a swydd:

.....
.....

Nodiadau rhagarweiniol ar gytundebau tenantiaeth

- Nid yw unrhyw beth sy'n rhan o gytundeb tenantiaeth yn gallu disodli cyfraith rhandiroedd.
- Dylid dylunio cytundeb tenantiaeth er mwyn iddo gael ei lofnodi ar ddechrau tenantiaeth ac nid oes angen ei ail-gyhoeddi a'i ail-lofnodi bob blwyddyn wedi hynny.
- Yn ôl statud, mae angen i'r rhent blynyddol fod yr hyn y byddai disgwyl i denant ei dalu am y rhandir ar y telerau sy'n berthnasol i'r trefniadau dan sylw.
- Mae cytundeb tenantiaeth yn dangos y cyfnod rhybudd o ran cynyddu rhent sydd yn fater i'w benderfynu gan eich cymdeithas. Y cyfnod rhybudd cyfreithiol diofyn fyddai deuddeg mis sy'n caniatáu i'ch cymdeithas newid y rhent ar ôl rhoi'r cyfnod o rybudd a ddiffinnir yn y cymal.
- Dylid cytuno'r cyfnod rhybudd rhwng y gymdeithas neu dirfeddiannwr a'r tenant. Does dim byd yn y Ddeddf Rhandiroedd nag unrhyw fan arall i gyfyngu ar hyn. O safbwynt hyblygrwydd ariannol ymarferol, argymhellir y dylai cymdeithasau rhandiroedd osod cyfnod o lai na deuddeg mis. Er hynny, ni ddylai cymdeithasau lleihau'r cyfnod rhybudd i lai nag un mis ac i'r mwyafrif, mae cyfnod o dri mis yn ymarferol.
- Mae angen llofnodi cytundeb newydd os bydd y cytundeb rhandiroedd yn newid. Os nad yw deiliaid lleiniau'n cydymffurfio, bydd angen ichi ddechrau'r broses o gyflwyno rhybuddion i adael y rhandir.
- Mae Rhybudd i adael yn golygu bod gofyn rhoi cyfnod rhybudd o 12 mis i ddeiliaid lleiniau adael y safle, ac mae'n rhaid iddyn nhw ddod i ben yn ystod tymor pan fydd rhandiroedd ynghwsg, sef 29ain Medi - 6ed Ebrill, yn unol â'r Ddeddf Rhandiroedd.

Telerau ac amodau opsiynol tenantiaethau rhandiroedd

Allwedd

- **Teip trwm** - yn dangos eitem neu amod sydd fel arfer yn rhan o brif-brydles sy'n berthnasol ar gyfer y safle cyfan rhwng cymdeithas rhandiroedd a'r awdurdod lleol neu dirfeddiannwr arall, ac y dylid ei ailadrodd mewn cytundebau tenantiaeth ar gyfer deiliaid llain unigol
- Teip arferol - yn dangos y testun sydd ei angen i ddarparu strwythur ac effaith gyfreithiol y cytundeb, neu sydd ei angen dan ddarpariaethau'r Deddfau Rhandiroedd
- *Teip Italig* – yn dangos cymalau a argymhellir fel arfer dda, neu opsiynau y gall cymdeithas rhandiroedd dewis ohonynt.

Darpariaethau ac amodau cyffredinol

- 1) Yn y ddogfen hon, pan fydd amgylchiadau'n caniatáu:
 - ystyr 'y Gymdeithas' yw [noder enw] Y Gymdeithas Rhandiroedd
 - ystyr 'y Landlord' yw'r tîrfeddiannwr neu'r awdurdod lleol
 - ystyr 'rhandir' yw unrhyw ardd neu lain ar y rhandir i'w osod
 - ystyr 'y tenant' yw enw deiliad(iaid) llain gyfredol y rhandir
 - ystyr 'y Cyngor' yw'r awdurdod lleol sy'n gweinyddu darparu rhandiroedd
 - ystyr 'y pwyllgor' yw pwyllgor rheoli'r Gymdeithas
 - ystyr 'y safle' yw 'r safle rhandiroedd a reolir gan y Gymdeithas neu'r tîrfeddiannwr, ac a leolir yn [noder y lleoliad].
- 2) Os caiff rhandir ei osod i ddau neu fwy o denantiaid neu grwpiau cymunedol, mae telerau ac amodau'r ddogfen hon yn berthnasol i bob un ohonynt.
- 3) **Mae gofyn i denantiaid fod yn aelodau o'r Gymdeithas am gyfnod llawn eu tenantiaeth.**
- 4) **Gosodir rhandiroedd i denantiaid fel gerddi rhandir, yn unol â darpariaethau Deddfau Rhandiroedd 1908 - 1950 sef fel tenantiaethau ar gyfer gerddi rhandir, ac mae darpariaethau'r Deddfau hynny'n berthnasol yn unol â hynny. Mae gofyn i'r Tenant trin y rhandir cyfan, neu fwyafrif y llain, er mwyn cynhyrchu cnydau llysiau neu ffrwythau ar gyfer defnydd y deiliad a'i deulu.**
- 5) Gall tenantiaid ddefnyddio'r rhandir i dyfu yn unig, ac ni chaniateir iddynt, ac ni chaniateir iddynt ganiatáu i rywun arall, redeg unrhyw fasnach neu fusnes sy'n ymwneud â'r rhandir.
- 6) *Cyn meddiannu'r rhandir, bydd bob tenant yn talu'r rhent angenrheidiol ac unrhyw ffioedd eraill ymlaen llaw - ar y dyddiau ac ar yr amser ac yn y lle a bennir gan y Gymdeithas / Landlord - i'r Ysgrifennydd neu swyddog awdurdodedig arall ar ran y Gymdeithas, os gofynnir amdano'n gyfreithiol ai peidio.*
- 7) **Bydd gan y Cyngor neu'r Gymdeithas, eu cynrychiolwyr achrededig ac unrhyw un sy'n gweithredu ar eu rhan neu gyda'u caniatâd, hawl i ymweld ag ac archwilio unrhyw rhandir a chyflawni unrhyw waith neu atgyweiriadau sydd eu hangen neu a awdurdodir gan y Gymdeithas neu'r Cyngor.**

Darpariaethau ac amodau cyffredinol parhad

8) Ni chaniateir i denantiaid wneud neu ganiatáu unrhyw beth (mewn perthynas â llain y Tenant) sy'n anghyson â, neu sy'n torri, darpariaethau'r brydles (a bydd y Gymdeithas neu'r Landlord yn sicrhau fod copi o'r rhain ar gael i'w harchwilio gan y tenant pe gofynnir am hynny).

9) Os bydd y Gymdeithas yn gweini unrhyw hysbysiad mewn perthynas â thorri unrhyw delerau yn y cytundeb hwn, mae'n rhaid i'r tenant gydymffurfio ar unwaith â'r fath hysbysiad a chyflawni unrhyw waith a nodir yn yr hysbysiad.

10) Ni chaniateir i denantiaid:

- drosglwyddo, neilltuo, isosod, rhoi'r gorau i feddiannu, neu fel arall delio gyda'r rhandir neu unrhyw ran ohono neu gydag unrhyw fuddiant ynddo;
- caniatáu neu honni caniatáu unrhyw hawl, diddordeb, trwydded neu hawddfrait mewn neu dros neu dan y rhandir;
- mewn perthynas â'r rhandir wneud unrhyw weithred neu beth a all fod yn, neu ddod yn anghyfreithlon neu'n niwsans i'r Cyngor, i'r Gymdeithas neu i denantiaid eraill neu i berchnogion neu feddianwyr eiddo arall cyfagos;
- *llechfeddiannu neu dresmasu, neu ganiatáu i eraill dresmasu, ar randir tenant arall, neu lechfeddiannu unrhyw lwybr, ffordd neu ofod cyffredin;*
- *achosi, neu ganiatáu i achosi, unrhyw ddifrod i neu ladrata unrhyw eiddo, gan gynnwys cynydau, sy'n eiddo i bobl eraill neu'r Gymdeithas.*

11) Mae'n rhaid i denantiaid:

- *Rhyddarbed a chadw'r Gymdeithas neu'r Landlord mewn rhyddarbed, ei swyddogion a'i weision rhag ac yn erbyn unrhyw gostau, hawliadau, orchmynion, achosion, treuliau a thaliadau a wneir neu a gychwynnir yn eu herbyn, neu unrhyw un o ohonynt mewn perthynas â defnydd o'r rhandir gan y Tenant neu weithwyr y Tenant, ymwelwyr neu gontractwyr, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ac a fyddai heb ddigwydd oni ddyfarnwyd y denantiaeth hon;*
- *Hysbysu'r Gymdeithas/Landlord am unrhyw ymdrech gan berchnogion neu feddianwyr eiddo arall yn y gymdogaeth i lechfeddiannu ar neu gaffael unrhyw hawl neu hawddfrait dros y rhandir, gan gynnwys unrhyw fynediad anawdurdodedig i'r safle;*
- *Cydweithredu mor bell ag sy'n rhesymol bosib gyda'r Gymdeithas/Landlord a'i swyddogion i sicrhau y caiff y safle ei redeg mewn ffordd effeithlon, effeithiol a chytûn;*
- *Hysbysu'r Gymdeithas/Landlord ar unwaith os bydd yn newid cyfeiriad neu unrhyw fanylion cyswllt eraill.*

12) Nid yw'r Gymdeithas/Landlord yn gyfrifol am unrhyw golled, lladrad, difrod neu anaf i unrhyw un neu unrhyw eiddo ar safle'r rhandir, ac mae pawb sy'n mynd i'r safle yn gwneud hynny ar ei fenter ei hun

13) Bydd tenantiaid yn ufuddhau i ac yn cyflawni unrhyw amod arbennig sydd ym marn y Gymdeithas/Landlord yn angenrheidiol i ddiogelu cyflwr y rhandir rhag dirywio, a bydd yn rhoi rhybudd priodol i'r tenant yn unol â'r telerau ac amodau hyn.

Gofalu am a chynnal a chadw'r rhandir

Gofal a gwaith cynnal a chadw cyffredinol

14) Mae'n rhaid i denantiaid cadw eu rhandir yn weddol rydd rhag chwyn a sbwriel, ac fel arall ei gynnal mewn cyflwr priodol o safbwynt tyfu arno er bodlonrwydd rhesymol y Gymdeithas/Landlord.

15) Ni chaniateir i denantiaid:

- *Blannu, na chaniatáu i dyfu, gwrychoedd na chodi unrhyw ffens, wal, na rhwystrau eraill o gwmpas eu llain unigol;*
- **Defnyddio weiren bigog neu weiren rasel neu ddefnydd tebyg at unrhyw ddiben;**
- **Codi hysbysadau neu hysbysebion, heb ganiatâd.**

16) Mae'n rhaid i denantiaid gadw unrhyw ffosydd a chysiau dŵr gerllaw eu rhandir ar agor ac yn rhydd rhag rhwystrau, ac ni chaniateir iddynt, heb gymeradwyaeth y Gymdeithas/Landlord ymlaen llaw, dargyfeirio, newid neu ymyrryd mewn unrhyw ffordd â llif neu hidliad y dŵr yn neu o dan y safle, boed y dŵr mewn sianeli diffiniedig neu fel arall.

Coelcerthi

17) Gall tenantiaid cynnau coelcerthi ar eu rhandiroedd yn unig (neu mewn man cyffredin ar y safle ar gyfer coelcerth, os oes un):

- Ar un diwrnod penodol y mis yn ystod misoedd Mai – Medi (y Gymdeithas/Landlord fydd yn pennu'r dyddiau) ac
- Ar unrhyw adeg ar unrhyw ddiwrnod yn ystod misoedd Hydref - Ebrill.

Os caniateir coelcerthi, mae'n rhaid eu cadw dan reolaeth bob amser, ac ni chaniateir eu gadael ac mae'n rhaid eu diffodd yn llwyr cyn i'r tenant adael y safle.

Strwythurau

18) Ni chaniateir i denantiaid adeiladu na chaniatáu adeiladu ar eu rhandiroedd:

- Unrhyw strwythurau sy'n uwch na 2.5 metr.
- Dim mwy nag un sied ac un tŷ gwyr.

Ni chaniateir i gyfanswm arwynebedd yr holl strwythurau ar randir (gan gynnwys siedau, tai gwyr, twneli plastic a'r tebyg) fynd dros [20%] o gyfanswm arwynebedd y llain, ac mae'n rhaid eu hadeiladu a'u cynnal a'u cadw i safon resymol. Dylid gwneud trefniadau i gasglu dŵr glaw o'r strwythurau er mwyn defnyddio adnoddau dŵr mewn ffordd gynaliadwy.

Noder: y Gymdeithas/Landlord sy'n llunio'r rheolau hyn ar strwythurau. Dylech wastad gysylltu â'r awdurdod cynllunio lleol i gadarnhau a oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw strwythur sydd gennych mewn golwg, er gwaethaf y ffaith y bydd yn eich barn chi'n strwythur dros dro neu barhaol. Mae'n rhaid i ddeiliad y llain gyflwyno unrhyw gais am ganiatâd cynllunio a thalu'r ffi briodol. Hefyd mae'n werth nodi bod rheolau cynllunio gwahanol yn bodoli ar gyfer strwythurau ar randiroedd yng ngwledydd gwahanol y Deyrnas Unedig. Yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer lleoliad y rhandir dan sylw yw'r awdurdod fydd yn penderfynu a oes angen caniatâd cynllunio ai peidio.

19) Ni chaniateir i unrhyw ardaloedd agored neu lwybrau o fewn ffiniau'r llain fod yn uwch na [10%] o gyfanswm arwynebedd y llain. Dylid creu llwybrau trwy ddefnyddio deunyddiau organig, cynaliadwy, ac mae'n rhaid iddynt fod yn hydraid er mwyn caniatáu i ddŵr glaw hidlo i'r ddaear yn lle rhedeg i garthffos gyhoeddus. (Gweler hefyd cymalau 25-27 isod mewn perthynas â llwybrau rhwng lleiniau a llwybrau mynediad eraill ar y safle).

20) Bydd strwythurau, ffitiadau ac eitemau tebyg a godir neu a osodir ar randir yn parhau'n eiddo'r tenant yn ystod y denantiaeth. Pan ddaw'r denantiaeth i ben, am ba bynnag reswm, y tenant neu ei gynrychiolydd personol fydd â'r hawl i gael gwared ar y fath strwythurau, ffitiadau ac eitemau tebyg, yn unol â'u telerau nhw, gan gynnwys eu gwerthu i denant newydd y llain, neu i dynnu'r fath strwythurau, a ffitiadau, ac unrhyw gynnyrch. Os na fydd y tenant sy'n ymadael yn cael gwared ar nac yn symud y fath strwythurau, gall tenant sy'n cymryd y denantiaeth naill ai feddiannu'r strwythurau hyn heb dalu amdanynt, neu achosi i'r strwythurau gael eu dymchwel a'u symud oddi yno a chodi ffi ar y tenant sy'n ymadael am gost y gwaith yma.

21) Wrth derfynu'r denantiaeth ar randir, bydd y tenant, os oes gofyn iddo'n unol â thelerau'r Gymdeithas/Landlord, symud ei holl eiddo o unrhyw fath o'r rhandir o fewn 14 diwrnod i derfynu'r denantiaeth, a bydd yn cywiro unrhyw ddiffygion ar y rhandir a achosir wrth eu symud. Wedi hynny, gall y Gymdeithas/Landlord symud unrhyw eiddo sy'n weddill ar y rhandir a chodi ffi ar y tenant am y gost o'r gwaith yma, ac am gywiro unrhyw ddiffygion, a bydd y tenant yn talu'r Gymdeithas/Landlord y swm am y gwaith dan sylw.

Coed

22) Ni chaniateir i denantiaid blannu, na chaniatáu i dyfu trwy eginblanhigion naturiol neu fel arall, unrhyw goed neu lwyni, ar wahân i goed a llwyni ffrwythau rhywogaethau cydnabyddedig a dyfir am eu cynydau.

23) Ni chaniateir plannu coed a llwyni ffrwythau o fewn 1 metr i – na hongian drosodd neu lechfeddiannu – ffyrdd, llwybrau, ffensys neu randiroedd cyfagos, ac ni chaniateir iddynt dyfu dros uchder o 5 metr.

24) Mae'n rhaid archwilio unrhyw goed yn rheolaidd, a'u cynnal a'u cadw i foddhad y Gymdeithas.

Gofalu am a chynnal a chadw'r rhandir parhad

Llwybrau rhwng lleiniau, ffyrdd a ffiniau

25) Yn amodol ar gymal 26, mae'n rhaid i denantiaid gadw pob llwybr neu ffordd wrth ymyl eu rhandir mewn cyflwr da, i foddhad y Gymdeithas, a thorri a thocio mewn ffordd briodol unrhyw wrychoedd neu ymylon sydd yn rhan o'u rhandir, ar wahân i lwybrau, ffyrdd a gwrychoedd y mae'r Gymdeithas wedi cytuno i ofalu amdanynt.

26) Os oes llwybr rhwng rhandiroedd, bydd tenantiaid y ddau rhandir ar y cyd yn gyfrifol am ei gynnal mewn ffordd briodol, gyda lled heb fod yn llai na 0.5 metr, y llwybr rhwng eu rhandiroedd oni chytunir rhyngddynt, gall y tenantiaid dan sylw y bydd naill un neu'r llall yn gyfrifol wrth ei hun am gynnal a chadw'r llwybr dan sylw.

27) Mae'r Gymdeithas/Landlord yn cadw'r hawl, trwy ymddwyn mewn ffordd resymol, ar ddiwedd blwyddyn tenantiaeth, ac wedi rhoi rhybudd rhesymol, i ail-ddiffinio ffiniau unrhyw rhandir, ac ail-asesu'r rhent os mae o'r farn bod angen gwneud hyn er mwyn hyrwyddo rheoli'r safle mewn ffordd effeithlon ac effeithiol.

Da byw - Opsiwn 1

28) Ni chaniateir cadw da byw ar y safle, ar wahân i gwingod, ieir (ond nid ceiliogod) a gwenyn mor bell â bod:

- i) eu niferoedd yn rhesymol
- ii) maent yn iach ac yn cael eu rheoli'n drugarog
- iii) nid ydynt yn achosi unrhyw berygl, niwsans, yn ymyrru neu'n tarfu neu'n cythruddo tenantiaid neu unrhyw un arall, gan gynnwys aelodau'r cyhoedd a pherchnogion neu feddianwyr eiddo cyfagos a gerllaw neu ddeiliaid lleiniau cyfagos neu gerllaw.

Ac yn amodol ar ganiatâd y Gymdeithas/Landlord sydd, fel y barno'n ddoeth, yn gallu penderfynu y byddai cadw rhai neu'r holl gwingod, ieir a gwenyn ar y safle'n niweidiol i iechyd neu'n niwsans.

Da byw - Opsiwn 2

28b) NI CHANIATEIR cadw da byw, gan gynnwys cwingod a dofednod [a gwenyn] ar randoedd.

Opsiwn cadw gwenyn

28c) Caniateir cadw gwenyn, ond mae'n rhaid i'r Gymdeithas/Landlord fod yn fodlon fod gan y tenant a/neu'r gwenynwr y cymwysterau priodol i ofalu amdanynt mewn ffordd briodol a gyda lefel cymhwysedd uchel. I'r perwyl hwn, mae'r amodau canlynol yn berthnasol:

- i) bydd y gwenynwr wedi dilyn cwrs cydnabyddedig, i foddhad y Gymdeithas/Landlord sy'n delio gydag agweddau damcaniaethol ac ymarferol ar gadw gwenyn
- ii) mae'n rhaid i'r gwenynwr fod yn aelod llawn o gymdeithas cadw gwenyn cydnabyddedig gydag yswiriant llawn yn erbyn niwed trydydd parti
- iii) dylai unrhyw wenyn sy'n dod i'r safle fod o natur dda, a dylid eu cadw yn yr un modd.

Dŵr

29) Gellir defnyddio pibell ddŵr ar y safle, yn amodol ar reoliadau'r cwmni dŵr. Mae'n rhaid dal y bibell ddŵr yn y dwylo trwy'r amser, ac ni chaniateir ei gadael heb ei goruchwyllo. Gwaherddir ysgeintwyr, systemau dyfrhau a systemau tebyg.

Gofalu am y safle

30) Ni chaniateir i denantiaid:

- a) dynnu neu gludo oddi yno, neu ganiatáu tynnu neu gludo oddi ar y safle, unrhyw glai, pridd, mwynau, graean na thywod;
- b) palu neu ganiatáu palu unrhyw dyllau, siafftiau, ffynhonnau neu ffosydd. Gellir darparu un pwll bach ar bob llain er mwyn defnyddio dŵr glaw yn effeithlon, ac i gynyddu bioamrywiaeth. Ni chaniateir iddo fod dros 10% o arwynebedd y llain;
- c) mewnforio, storio neu ganiatáu ar y safle, unrhyw bridd, lenwad neu ddeunydd o ffynhonnell allanol, megis uwchbridd o ardd ddomestig neu safle adeiladu. Mae hyn yn berthnasol hefyd i unrhyw sbwriel neu

ddeunyddiau neu eitemau eraill, nad ydynt yn gysylltiedig â defnydd priodol a chyfreithlon o'r safle neu sy'n debygol o niweidio ansawdd arddwriaethol y safle. Gofynnir ichi ddefnyddio pridd heb fawn lle bo'n bosib, a'i gaffael gan gwmni cyflenwi cydnabyddedig. Dylech gompostio eich gwastraff organig sy'n diglefyd ar eich llain;

d) *osod unrhyw wrtaith, sbwriel, neu ddeunydd arall o unrhyw fath ar y ffyrdd, llwybrau, cilfannau neu unrhyw le ar fannau parcio, mewn cyrsiau dŵr neu ar dir cyffredin heb gytundeb y Gymdeithas ymlaen llaw, ac mor bell ag y caiff y deunydd ei glirio'n brydlon.*

e) **parcio neu achosi i unrhyw gerbyd barcio ar unrhyw randir neu unrhyw ran o'r safle heblaw yn y manau parcio dynodedig a dim ond pan fyddwch yn bresennol ar y safle.**

f) *f)ymyrryd mewn unrhyw ffordd ag unrhyw ddeunyddiau, peiriannau, offer, adeilad neu osodiad sy'n eiddo i'r Gymdeithas neu'r Cyngor.*

31) *Mae'n rhaid i denantiaid:*

a) *gloi'r gatiau ar ôl mynd i neu adael y safle, hyd yn oed os mae'r gatiau ar agor neu heb eu cloi wrth eu cyrraedd;*

b) *wneud trefniadau i gwrdd unrhyw un yn bersonol wrth fynedfa'r safle, sy'n ymweld â nhw, neu gerbydau sy'n dod â nwyddau iddynt ar y safle, a sicrhau y caiff y fynedfa ei chloi'n ddiogel cyn ac ar ôl unrhyw ymweliad. Bydd gan y Gymdeithas/Landlord yr hawl i wrthod mynediad i unrhyw un ar wahân i'r tenant neu aelod o'i deulu neu gartref i'r rhandir, oni bai bod yr ymwelydd yng nghwmni'r tenant neu aelod o'r teulu;*

c) *ar ddiwedd y denantiaeth dychwelyd pob allwedd i'r gatiau ac unrhyw allweddi eraill a ddarparwyd gan y Gymdeithas/Landlord. Bydd pob allwedd yn aros yn eiddo'r Gymdeithas/Landlord. Os cyflenwyd allweddi newydd i'r tenant, mae'n rhaid dychwelyd y rhain ar ddiwedd y denantiaeth, neu pe gofynnir amdanynt;*

d) *hysbysu'r Pwyllgor am unrhyw ddiwyddiadau o ran dŵr yn gollwng o brif bibell ddŵr, unrhyw ddifrod i ffensys, eiddo neu gynnyrch, trwy dresmasu neu fandaliaeth, neu oherwydd unrhyw achos arall.*

32) *Mae'n rhaid cadw cŵn dan reolaeth agos, ar dennyn, tra byddan nhw ar y safle. Ni ddylid caniatáu iddynt faeddu neu achosi difrod i unrhyw lain ar y rhandir.*

Terfynu Tenantiaeth

33) *Mae'n rhaid i'r Tenant ildio'r rhandir ar ddiwedd neu wrth derfynu'r denantiaeth, mewn cyflwr sy'n cydymffurfio â thelerau ac amodau'r ddogfen hon.*

34) *Gall y Gymdeithas/Landlord neu'r Tenant ar unrhyw adeg derfynu tenantiaeth trwy roi rhybudd ysgrifenedig o ddeuddeg mis i'r ochr arall, i redeg allan ar neu cyn y chweched o Ebrill neu ar neu ar ôl y nawfed ar hugain o Fedi mewn unrhyw flwyddyn, ond gall y Gymdeithas/Landlord dderbyn fel y barno'n ddoeth cyfnod rhybudd byrrach gan y Tenant, fydd yn terfynu ar unrhyw amser.*

35) *Yn achos marwolaeth y Tenant, daw'r denantiaeth i ben [3 mis/6 mis/ar ddiwedd y flwyddyn rent] ar ôl dyddiad ei farwolaeth ar wahân i'r ffaith y gellir terfynu'r denantiaeth yn gynharach trwy gytuno hyn gyda'r Gymdeithas/Landlord.*

Terfynu cytundeb tenantiaeth deiliad y llain gan y Gymdeithas/Landlord/Cyngor oherwydd torri amod[au]

36) *Bydd gan y Gymdeithas/Landlord yr hawl i fynd i ac ailfeddiannu llain ar randir ar unwaith, a therfynu tenantiaeth unrhyw denant ar ôl rhoi rhybudd ysgrifenedig o fis ymlaen llaw i'r tenant:*

a) *y mae ganddo ôl-ddyledion rhent o ddeugain diwrnod neu fwy, os gofynnwyd amdano'n gyfreithiol ai peidio, neu*

b) *sydd wedi torri unrhyw gytundeb, cyfamod neu rwymedigaeth arall (gan gynnwys cyfamodau 14 ac 15 uchod mewn perthynas â gofalu am a chynnal a chadw'r rhandir) a osodir ar y tenant trwy'r ddogfen hon neu'r cytundeb tenantiaeth mewn perthynas â'r rhandir.*

Terfynu cytundeb tenantiaeth deiliad y llain gan y Gymdeithas oherwydd bod y brif brydles ar gyfer y safle cyfan yn dod i ben gan y landlord neu berchennog y tir

37) *Gall y Gymdeithas derfynu tenantiaeth unrhyw randir trwy roi mis o rybudd os bydd angen ar unrhyw adeg, gyda rhybudd o fis, ar gais y Cyngor, ildio meddiant neu'r hawl i feddiannu'r tir, neu unrhyw ran ohono, y mae'r rhandir dan sylw'n rhan ohono.*

- 38) Daw'r denantiaeth i ben ar unwaith os bydd unrhyw denantiaeth neu hawl i feddiannu gan y Cyngor yn dod i ben.
- 39) Os bydd ar y Cyngor angen y safle neu unrhyw ran ohono, sy'n cynnwys y llain dan sylw, at ddiben oedd yn rheswm dros ei gaffael, neu a ddyranwyd gan y Cyngor, gall y Gymdeithas wneud penderfyniad am y denantiaeth trwy roi rhybudd ysgrifenedig o dri mis calendr.

Iawndal

- 40) Cyn meddiannu tir, bydd pob aelod yn talu'r Gymdeithas/Landlord neu i'r Tenant sy'n ymadael y llain, pa un bynnag sy'n berthnasol, unrhyw dâl sy'n ddyledus mewn perthynas ag iawndal, addasiadau neu faterion eraill wrth feddiannu'r llain.
- 41) Bydd gan y Gymdeithas/Landlord hawl i ofyn am iawndal statudol gan y Tenant wrth ymadael â'r rhandir wrth derfynu tenantiaeth, mewn perthynas ag unrhyw ddirywiad yng nghyflwr y rhandir a achoswyd gan y tenant o ran methu â'i gynnal a'i gadw yn unol â'r cytundeb hwn.
- 42) Ni ystyrir fod y rhandir wedi ei osod, ac ni ddylid ei drin fel gardd farchnad neu ddaliad amaethyddol yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

Torri amodau ac anghydfodau

- 43) *Torri amodau - yn achos unrhyw aelod a gyhuddir o dorri'r rheolau hyn, dylid cyfeirio'r mater at y pwyllgor drwy ysgrifennu atynt, neu at unigolyn neu unigolion a benodwyd gan y pwyllgor fel y barno'n ddoeth, fydd yn delio gyda'r mater ar y cyfle cyntaf posib. Bydd gan y pwyllgor grym i gymryd unrhyw gamau fel y barno'n ddoeth.*
- 44) *Anghydfodau - cyfeirir unrhyw achosion o anghydfod rhwng dau denant neu fwy at y pwyllgor, neu at unigolyn neu unigolion a benodwyd gan y pwyllgor fel y barno'n ddoeth. Bydd gan y pwyllgor grym i gymryd unrhyw gamau fel y barno'n ddoeth.*
- 45) *Mae'r Gymdeithas/Landlord yn cadw'r hawl i wahardd o'r safle heb rybudd, tra bydd y pwyllgor yn ystyried y mater dan baragraff 43 uchod, unrhyw denant neu unigolyn arall a gyhuddir o gamymddwyn difrifol megis (a) achosi difrod difrifol i unrhyw randir neu i'r cnydau ar randir neu i unrhyw ardal gyffredin neu (b) tra bydd ar y safle, niweidio neu ddwyn eiddo unigolyn arall neu'r gymdeithas neu (c) ymosod ar neu fygwth unrhyw unigolyn ar y safle.*
- 46) *Apelio - gall unrhyw un sy'n torri rheolau neu sy'n rhan o anghydfod apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad a wneir gan y pwyllgor dan 43-45 uchod. Bydd yr apêl yn mynd gerbron unigolyn neu unigolion sy'n annibynnol o drefniadau rheoli'r Gymdeithas, a threfniadau rheoli'r safle. Bydd yr unigolyn neu unigolion dan sylw'r sicrhau fod y partïon dan sylw'n cael gwrandawriad teg cyn cyrraedd penderfyniad ynglŷn â'r apêl.*

Llythyrau a hysbysiadau

- 47) Gellir cyflwyno unrhyw lythyr neu hysbysiad sydd angen ei gyflwyno dan y cytundeb hwn trwy law, trwy'r post a delir ymlaen llaw, neu drwy ddull electronig addas:
- naill ai ar y Tenant yn bersonol neu drwy ei adael yn ei gyfeiriad hysbys olaf, neu drwy lythyr a delir amdano ymlaen llaw ato yn y cyfeiriad hwnnw, neu fel arall, trwy ei atodi ar y rhandir mewn ffordd a lleoliad amlwg;
 - ar y Gymdeithas/Landlord trwy ei anfon at yr ysgrifennydd ar y pryd yng nghyfeiriad cyhoeddus y Gymdeithas er mwyn derbyn gohebiaeth.
- 48) Gellir cyflwyno hysbysiadau at sylw bob tenant trwy eu harddangos mewn lle amlwg ar hysbysfwrdd allanol y Gymdeithas ar y safle, neu mewn man arddangos tebyg neu drwy eu cynnwys mewn unrhyw gylchlythyr neu gylchgrawn a ddsberthir gan y Gymdeithas i'w holl aelodau.

Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

- 49) Gellir cadw manylion cyswllt Tenantiaid, hanes y rhandir a gwybodaeth arall sy'n berthnasol i denantiaeth ac aelodaeth y Gymdeithas/Landlord ar yriant diogel ar gyfrifiadur neu fel arall. Defnyddir yr wybodaeth yma'n unig er mwyn rheoli a gweinyddu'r Gymdeithas a'r safle, ac ni chaiff ei datgelu i drydydd parti oni bai bod gofyn i'r Gymdeithas wneud hynny yn enw'r gyfraith neu i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol. Gall tenant archwilio'r wybodaeth a gedwir gan y Gymdeithas amdano/amdani trwy wneud cais am hynny. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â swyddfa'r comisiynydd gwybodaeth: <https://ico.org.uk/>

Nodiadau Esboniadol

Hwyrach y bydd Cymdeithasau/
Landlordiaid am ofyn cyngor
cyfreithiol cyn defnyddio'r modelau
hyn.

Darperir y nodiadau hyn fel
cyfarwyddyd lleyg ar gyfer
cymdeithasau, ac nid ydynt yn
cyfateb i ddehongliad o'r gyfraith.

Mae llawer o ddeunydd opsiynol
o safbwynt nid yw'n orfodol gan y
brydles neu o ran y gyfraith, ond
mae'n cyfateb i arfer da a synhwyrol.

'Rhent rhesymol'

Yn ôl Deddf Rhandiroedd 1950
a.10(1) - mewn iaith glir, mae gofyn
i'r rhent y disgwylir yn rhesymol i
ddeiliaid llain ei dalu ar gyfer y rhandir
ar gyfer yr hyn mae'n ei gael/chael
ar y telerau sy'n berthnasol. Felly
gall rhent rhesymol gynnwys pethau
megis:

- defnyddio darn diffiniedig o dir i
dyfu o fewn safle'r rhandir (y llain
ei hun)
- cyfle teg i gael cyfran deg o
wasanaethau a chyfleusterau a
ddarperir ar y safle e.e. mynediad
at ddŵr, mynediad at doiledau (os
darperir rhai), cyfran o nwyddau
cyffredin e.e. gwrtaitaith
- budd nodweddiad eraill ar y safle
cyfan e.e. ffensys, gatiâu, ffyrdd
a chyflenwad dŵr sy'n cael eu
cynnal a'u cadw'n briodol
- budd trefniadau a wneir gan
gymdeithas y rhandiroedd ar
ran holl ddeiliaid rhandiroedd
e.e. yswiriant atebolrwydd
cyhoeddus, cronfa wrth gefn y
gymdeithas i dalu am weithiau
mawr yn y dyfodol.

Gellir rhannu'r gost i'r Gymdeithas
o ddarparu'r fath wasanaethau,
cyfleusterau, nodweddiad a
threfniadau cyffredin yn rhesymol
rhwng holl ddeiliaid rhandiroedd
fel elfen o'r rhent a delir ganddynt.
Ni fyddai'n rhesymol codi tâl ar bob
deiliad llain am rywbeth sydd o fudd
yn unig i nifer fach.

Dyddiadau cychwyn a gorffen

Gellir addasu dyddiadau cychwyn a
gorffen y cytundeb a nodir yn y cymal
hwn i weddu i'ch blwyddyn ariannol
unigol.

Mae'r testun yn nodi taw'r bwriad
yw casglu rhent unwaith y flwyddyn,
ac mae'n debyg y bydd yn opsiwn
ymarferol i lawer o gymdeithasau.
Fodd bynnag, mae darpariaeth yn y
Ddeddf Rhandiroedd i gasglu rhent
bob chwarter os bydd hyn yn fwy
priodol.

Aelodaeth o'r Gymdeithas (Cymal opsiynol 3)

Os bydd y cytundeb tenantiaeth yn
gorfodi deiliaid rhandiroedd i fod yn
aelodau o'r Gymdeithas (h.y. mae'n
cynnwys cymal 3 o'r rhestr o delerau
ac amodau Opsiynol, oherwydd bod
angen hyn yn y brif brydles) ac rydych
yn codi tâl (neu'n bwriadu codi tâl)
aelodaeth, y peth doethaf fyddai
cynnwys hyn yn y rhent. Ni fydd
deiliaid rhandiroedd yn gallu optio
allan o fod yn aelod o'r gymdeithas,
a dylai cynnwys unrhyw ffi aelodaeth
yn y rhent helpu osgoi unrhyw ddadl
am hynny.

Byddai wastad yn bosib ichi godi ffi
ar wahân ar gyfer gwasanaethau
opsiynol sydd ar gael i ddeiliaid
rhandiroedd megis defnyddio caban
masnachu, cymryd rhan mewn
ymweliadau, ond ni fyddai'n ddoeth
disgrifio hyn fel ffi aelodaeth.

Meddiannu rhandir (Cymal opsiynol 6)

Hwyrach y bydd Cymdeithasau sydd
â chyfnod prawf anffurfiol ar gyfer
tenantiaid newydd am ddiwygio'r
cymal hwn er mwyn egluro nad oes
rheid i bobl newydd dalu rhent ar y
cychwyn cyntaf.

Mynediad, archwilio a gwaith ar leiniau (Cymal opsiynol 7)

O dan y brydles, gall y Cyngor
archwilio'r safle trwy roi rhybudd
rhesymol. Gall y Cyngor neu ei
gontractwyr (neu sefydliadau

annibynnol megis Dŵr Cymru) ddod
i'r safle ar ôl rhoi rhybudd addas
i atgyweirio pibellau, ceblau ac
eitemau tebyg sy'n rhedeg ar draws
y safle at eiddo'r Cyngor drws nesaf.
Felly, mae angen hawl mynediad at
leiniau unigol i archwilio neu i weithio
ar y Gymdeithas a gweithwyr y
Cyngor ac unrhyw drydydd parti sy'n
gweithredu gyda'u caniatâd nhw.

Cydymffurfio â'r brydles (Cymal opsiynol 8)

O dan y brif brydles, bydd gofyn
i'r Gymdeithas sicrhau fod deiliaid
lleiniau'n cydymffurfio â thelerau'r
brydles sy'n berthnasol yn
uniongyrchol iddyn nhw, neu y byddai
gofyn i'r gymdeithas eu dirprwyo
iddynt. Felly mae'n rhesymol y dylai
fod deiliaid lleiniau'n gallu archwilio'r
brydles. Os nad yw'r iaith gyfreithiol
a ddefnyddir yn y brydles yn hawdd
ei deall, byddai'n well helpu pobl i
ddeall y brydles yn hytrach na rhoi
copi ohoni iddynt a disgwyl iddynt ei
deall yn eu hamser eu hunain.

Trigolion cyffiniol yn llechfeddiannu (Cymal opsiynol 11)

Byddai'n syniad da i annog deiliaid
lleiniau i hysbysu'r gymdeithas am
unrhyw ymdrechion gan drigolion
cyffiniol i ehangu eu gerddi neu
osod gatiâu anawdurdodedig i'r
safle, oherwydd bydd yn rhaid
i'r Gymdeithas hysbysu'r Cyngor
am ddiwyddiadau o'r fath. Trwy
osgoi unrhyw ddarnau tir gwag neu
ddiffaith ger y ffiniau, gellir helpu
osgoi hyn, a sicrhau pe byddai'n
digwydd y byddai'n fwy amlwg.

Rhyddarbed y Gymdeithas/ Landlord (Cymal opsiynol 11)

Nid yw hyn yn golygu o reidrwydd
bod gan y tenant unigol yswiriant
arbennig, ond mae'r cymal yn golygu
(yn fras) os caiff y gymdeithas ei
herlyn oherwydd rhywbeth sydd
wedi digwydd yn unig oherwydd un
tenant neu un denantiaeth, mae'n
rhaid i'r tenant dan sylw ysgwyddo'r
cyfrifoldeb a thalu'r bil.

Tyfu priodol (Cymal opsiynol 14)

Does dim rheol bendant sy'n disgrifio tyfu 'priodol'. Dylai'r Gymdeithas fabwysiadu'r cymal hwn i adlewyrchu'r rheolau neu'r canllawiau sydd eisoes yn bodoli, ac sy'n gyfarwydd i ddeiliaid y rhandiroedd.

Cyrsiau dŵr (Cymal opsiynol 16)

Bu achosion lle mae tenantiaid neu gymdeithasau sydd wedi creu ffosydd wedi achosi llifogydd ar eiddo cyfagos. Diben y cymal hwn yw atal hyn rhag digwydd.

Coelcerthi (Cymal opsiynol 17)

Mae'r rheolau ar gyfer deiliaid lleiniau sy'n cynnal coelcerthi wedi cael eu symleiddio, ond yn fras, maent yn debyg iawn i'r rheolau presennol/blaenorol. Hefyd gall y gymdeithas drefnu coelcerth gymunedol unwaith y mis yn ystod yr haf, ac ar unrhyw bryd yn ystod y gaef, ond mae'n rhaid iddynt gael eu goruchwyllo gan y gymdeithas ac ni chaniateir iddynt achosi niwsans i gymdogion. Gall y gymdeithas benderfynu pa ddiwrnod bob mis y gellir cynnal coelcerthi dros yr haf.

Strwythurau (Cymal opsiynol 18)

Nid ydym yn darparu union ddiffiniad o 'strwythur' yma. Dylid glynu wrth Ddeddfau Cynllunio Gwlad a Thref, a dylid ceisio cyngor yr Awdurdod Cynllunio mewn perthynas ag a yw strwythurau'n cyfateb i ddatblygiad ac a oes angen caniatâd cynllunio. Noder: mae'r rheolau ynglŷn â'r hyn sydd angen caniatâd cynllunio yn amrywio ar draws gwledydd gwahanol y DU.

Llwybrau (Cymal opsiynol 19)

Os bydd deiliad llain yn dymuno creu llwybrau, ni chaniateir defnyddio concrit a deunyddiau anhydraidd. Dylai deiliad llain defnyddio deunyddiau organig megis sglodion

rhisgl i greu llwybrau bach ar ei randir. Dylid osgoi deunydd plastig a concrit. Mae'n bwysig i'r dŵr allu hidlo i'r pridd yn hytrach na rhedeg oddi ar y llwybr i garthffos gyhoeddus. Dylid annog ffosydd draenadwy cynaliadwy, a'u cytuno gyda'r Gymdeithas neu'r Landlord ymlaen llaw.

Clirio lleiniau (Cymal opsiynol 21)

Mae hwn yn rhoi pŵer wrth gefn i Gymdeithas/Landlord i fynnu bod deiliad sy'n gadael llain yn clirio ei eiddo oddi yno o fewn 14 diwrnod i ddiwedd y denantiaeth ac yn galluogi'r gymdeithas i glirio unrhyw beth sy'n weddill ar ôl y cyfnod hwnnw.

Archwilio a chynnal a chadw coed (Cymal opsiynol 24)

Dylid archwilio a chynnal a chadw coed yn rheolaidd er mwyn bodloni polisiau yswiriant.

Da byw (Cymal opsiynol 28 a/b)

Mae'r Ddeddf Rhandiroedd yn caniatáu i ddeiliaid rhandiroedd gadw cwingod ac ieir (nid ceiliogod) ar eu lleiniau, mor bell nad ydynt yn achosi niwsans na risg i iechyd. Os ydych yn dewis caniatáu'r anifeiliaid hyn, dylech gynnwys y geiriau penodol a nodwyd yn y brydles. Fodd bynnag, hwyrach y byddwch yn penderfynu gwahardd eu cadw o gwbl.

Cadw gwenyn (Cymal opsiynol 28 c)

Os byddwch yn caniatáu cadw gwenyn ar randoedd, byddai'n ddoeth cynnwys y cymal hwn sy'n gosod rheolau sylfaenol ar gyfer gwenynwyr.

Dŵr (Cymal opsiynol 29)

Mae'r gwaharddiad argymelledig ar ysgeintwyr yn ymwneud â phrofiadau gyda phobl sy'n gadael pibellau dŵr heb oruchwyliaeth am gyfnodau hir, sy'n cyfateb i arfer gwael. Dylid dyfrhau â llaw yn unig.

Rhoi 12 mis o rybudd (Cymal opsiynol 34)

Yn ôl y Ddeddf Rhandiroedd os rhoddir rhybudd o 12 mis gan y Gymdeithas o dan y cymal hwn, mae'n rhaid ei roi (a rhaid iddo orffen) rhwng 29ain Medi a 6ed Ebrill - nid yn ystod y tymor tyfu. O safbwynt ymarferol mae hyn yn cynnwys cychwyn a diwedd y rhan fwyaf o flynyddoedd rhent Cymdeithasau (boed yn 1af Hydref neu 1af Ebrill, neu yn y cyfamser).

Iawndal ac ati i denant newydd (Cymal opsiynol 40)

Mae hyn yn golygu, cyn symud mewn, y dylai tenant newydd dalu'r tenant sy'n gadael (neu'r gymdeithas) unrhyw arian sy'n ddyledus am siediau ac ati y mae'n eu meddiannu, neu ar gyfer unrhyw waith a wnaethpwyd yn benodol ar gyfer y tenant newydd ac y gellir codi tâl rhesymol amdano.

Torri telerau'r denantiaeth ac anghydfodau (Cymal opsiynol 43-44)

Er bod y dull hwn o ddelio gyda thorri telerau ac anghydfodau yn adlewyrchu arferion rhai cymdeithasau, dylai eraill sydd am ei ddefnyddio gwirio eu cyfansoddiadau ar gyfer cysondeb. I gyd-fynd ag egwyddorion cyfiawnder naturiol, dylid rhoi cyfle teg i bob parti gynrychioli ei achos, a rhoi gwrandawriad teg iddynt. Wedyn dylai'r pwyllgor wneud ei benderfyniad mewn ffordd deg, gwrthrychol a diduedd.

Gwahardd (Cymal opsiynol 45)

Diben y cymal hwn yw fel pŵer mewn argyfwng i'w ddefnyddio'n unig mewn achosion difrifol lle mae tenant neu unigolyn arall yn achosi difrod difrifol a maleisus neu'n bygwth pobl neu eiddo. Dylai'r gwaharddiad barhau hyd nes y gall y pwyllgor ystyried a delio gyda'r cyhuddiadau.

Apelio (Cymal opsiynol 46)

Yn ôl egwyddorion cyfiawnder naturiol a deddfwriaeth sydd mewn grym, dylid caniatáu apêl gerbron unigolyn (neu unigolion) annibynnol i unrhyw un sy'n gysylltiedig â thorri telerau neu anghydfod. Dylai'r unigolyn hwnnw (neu unigolion) roi gwrandawriad teg i bob parti, a chyrraedd casgliad gwrthrychol. Mewn rhai achosion hwyrach y bydd canolwr neu gyfryngwr yn helpu datrys anghydfod a bodloni pob ochr.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Social **Farms**
& **Gardens**
Ffermydd a Gerddi
Cymdeithasol 

Ffon: 02920 225 942 /Ebost: wales@farmgarden.org.uk
Website: www.farmgarden.org.uk